Ymateb Telesgôp i'r cwestiynau a osodwyd:

Yn gyntaf mae Telesgôp yn croesawu yr ymgynghoriad a'r awydd i ehangu y ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Er bod canran uwch a chynyddol yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg erbyn hyn ac yn gadael yr ysgol yn rhugl a gweddol rhugl ddwyieithog, mae tueddiad i'r iaith Gymraeg gael ei chysylltu yn ormodol gyda phrofiadau addysgol, 'ffurfiol' a phell o brofiadau cymunedau y bobl ifanc hyn. Mae ymestyn yr elfennau 'adloniadol', 'cŵl' a hwyliog yr iaith, trwy deledu a phrofiadau rhyngweithiol aml-gyfrwng, yn hynod o bwysig ac allweddol i barhad yr iaith. Yn wir mae'n fodd o atgyfnerthu, ymestyn a 'normaleiddio' y profiadau o'r iaith Gymraeg.

1. Heb unrhyw amheuaeth, mae Telesgôp yn cytuno y bydd y gwasanaeth i Blant yn gwella'r gwasanaeth cyhoeddus a gynigir yn y Gymraeg i Blant. Yn fwy na hyn mae yn rhoi tegwch a chyfle mwy cyfartal i'r profiadau Cymraeg ym mywydau plant a phobl ifanc Cymru.

2. Mae yr oriau darlledu i'w gweld yn addas ar gyfer patrwm bywyd y mwyafrif o blant a phobl ifanc Cymru ac mae ymchwil S4C yn cadarnhau y tair gynulleidfa darged (o ran oedran).

3. Y nodweddion allweddol pwysicaf fyddai:
- cywair iaith briodol heb ddieithrio y gynulleidfa darged;
- rhaglenni safonol (yn cyd-fynd gyda rhagoriaeth safon y Strategaeth Rhaglenni);
- amrywiaeth eang o 'brofiadau' hwylus gan gynnwys elfennau amlwg o ryngweithio. Mae Cymru yn gyfuniad o wledig, trefol/dinesig ac ôl ddiwydiannol. Er mae'n rhaid cofio bod y profiad uniongyrchol gwledig o fewn tair cenhedlaeth i ran fwyaf o blant a phobl ifanc Cymru ac mae pobl ifanc dinesig yn edrych tuag at y gwledig mewn modd cadarnhaol;
- mae angen pwyslais mawr ar fodloni ac ymestyn dyhead y gwylwyr. Maen nhw'n soffistigedig a gwybodus, ac yn disgwyl i rai rhaglenni eu herio a'u ysbrydoli yn ogystal â bod yn hwyliog adloniadol;
- dylid bod yn rhyngwladol o ran nod y cynnwys ond ei wreiddio bob amser yng Nghymru. Felly, dylid gwneud Cymru yn rhan fyw, berthnasol o'r byd mawr gan ddangos bod pob profiad rhyngwladol cyfoes yn berthnasol ac yn rhan ganolog o fywyd yr ifanc yn ein gwlad.

4. O fod wedi gwylio S4C2 o'r Cynulliad, mae'r trafodaethau yn gallu bod yn hirwyntog, amherthnasol a rhy fanwl i fod o unrhyw werth adloniadol. OND mae yna ddyletswydd ar S4C i ddarlledu o'r Cynulliad gan ddangos y broses ddemocrataidd ar waith yn ein gwlad.
ER HYN – y mae Telesgôp yn credu mai opsiwn 2 fyddai'r dewis gorau ond ein bod yn cynnwys o fewn y patrwm darlledu rhaglenni 'uchafbwyntiau' o drafodaethau y Cynulliad wedi ei anelu at (ac o bosib yn cael ei gyflwyno gan) bobl ifanc a phlant, yn wythnosol. Hefyd mae'n bosib cynnwys rhaglen i oedolion hefyd ar hyn o fewn y ddarpariaeth digidol. Ar ddiwedd y dydd, mae 'uchafbwyntiau' o'r Cynulliad yn fwy tebygol o ddal diddordeb ac ymestyn apêl gwleidyddiaeth Cymru, na darlledu di-dor am oriau bob dydd rhwng Mawrth ac Iau tra'n amddifadu pobl ifanc Cymru o wasanaeth mwy cynhwysfawr.

5. Byddai'n braf gallu ateb 'Byddai yn sicr', ond y gwirionedd yw bod yn rhaid wrth arian cyhoeddus a chorff canolog i sicrhau tegwch i bob oedran a hefyd safon. Perygl (hyd yn oed pe bai modd masnachol economaidd i wneud hyn) fyddai i'r ystyriaeth 'neud arian'

bwyso'n drwmach yn y glorian na'r elfen o safon ar draws y galw o ran oedran. Y mae Telesgôp yn credu fod S4C o ran profiad, gallu a hefyd ymwybyddiaeth o'r anghenion, yn fwy addas i gyflawni'r dasg yn llwyddiannus na'r un fenter trydydd parti.

6. Yr unig randdalwyr eraill o bosib y dylid eu hystyried yw y Mentrau Iaith unigol, er eu bod wrth gwrs a rhan yn hyn o dan adain Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

7. Y sialens fawr yw sicrhau digon o amrywiaeth ac mae posib gwneud hynny trwy addasu rhai o syniadau mwyaf llwyddiannus y sianel ar hyn o bryd, ar gyfer pobl ifanc. Hefyd mae angen deall a gwerthfawrogi ymroddiad y rhieni di-Gymraeg (cynyddol o ran rhif) sy'n dewis addysg Gymraeg ar gyfer eu plant. Nhw hefyd, sydd yn dewis arlwy teledu eu plant. Mae angen ymchwil a marchnata o fewn y garfan hynod o bwysig yma.
Dylid hefyd rhoi ystyriaeth i'r teuluoedd tu allan i Gymru. Mae amryw ohonyn nhw yn chwilio am ddeunydd/hafan i gynorthwyo eu plant i gadw gafael/magu/ymestyn ar brofiadau Cymraeg. Mae cynnig gwasanaeth is-deitlo i rai rhaglenni yn hynod o bwysig gan alluogi teuluoedd i ymuno yn y profiad.

Mae'n wir dweud fod sialens, her a mynydd uchel iawn i'w ddringo o flaen S4C yn y dasg hon. Ond trwy brofiad, cydweithio gyda'r sector annibynnol a gosod nod ddiwyro o safonau uchel, y mae posib cyflawni y dasg. Fe ddylid, llaw yn llaw gyda'r ddarpariaeth, gadw data manwl o'r hyn y mae'r sianel hon yn mynd i'w gyflawni. Mae'r nod yn un uchel, ond mae'r sialens yn gyffrous, heriol ac ymestynnol i bawb sydd ym ymwneud â'r byd darlledu ac sy'n ewyllysio'n ymarferol barhâd yr iaith Gymraeg.

Y mae Telesgôp yn cefnogi S4C yn y fenter gyffrous yma.